**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eich cyf: WQ89684
Ein cyf: WQ89684

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Rhagfyr 2023

Annwyl Adam

Fe wnes i addo ysgrifennu yn rhoi ateb cynhwysfawr i'r cwestiwn a gyflwynwyd gennych yn ddiweddar:

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddyled myfyrwyr yng Nghymru? (WQ89684)

Caiff balans cyfartalog benthyciadau wrth i unigolion ddechrau eu had-dalu ei gyhoeddi gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, ac ar gyfartaledd mae balans myfyrwyr Cymru yn dal i fod yn is nag yn achos eu cydfyfyrwyr yn Lloegr. Nid yw'r ad-daliad yn seiliedig ar faint y benthyciad, ond yn hytrach ar y swm y mae'r unigolyn yn ei ennill uwchlaw trothwy penodol. I fyfyrwyr sy'n dechrau ar eu cyrsiau, mae'r trefniadau ad-dalu yn fwy blaengar nag yn Lloegr, yn ogystal â'r pecyn cymorth i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dileu rhan o ddyled unigolion sy'n mynd ati i ddechrau ei had-dalu, cynllun sy'n unigryw o fewn y DU.

Ymddiheuriadau am yr oedi yn fy ymateb.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.